

CYNGOR CYMUNED CYNWYL ELFED

Cyfarfod a gynhaliwyd am 7.30 y.h. ar Nos Lun 14.07.2025

Yn Neuadd Cymdeithasol Cynwyl Elfed

Yn Bresennol: Cllr.Amy Evans (Cadair.), Cyng. Elfed Davies, Cyng. Eifion Jones, Cyng. Demle Phillips, Cyng. Bryan Davies, Cyng. Aled Jones, Cyng. Julian Evans a'r Cyng. Robin Bowen.

Clerc: Enid Davies

Cyfieithydd: Bethan Griffith

Ymddiheuriadau: dim

Aelodau o'r cyhoedd yn bresennol: E. Evans, D. Evans, I. Evans a B. Millington.

31.Datgelu Buddianau Personol:

Datgelwyd buddianau personol gan y Cyng. Elfed Davies ynghylch cynyddu terfyn cyflymder arfaethedig o 20 mya i 30 mya ar y B4333 drwy Hermon am ei fod yn un o'r trigolion effeithir arnynt a bydd cysylltiad uniongyrchol ag ef yn dilyn yr ymgynghoriad hwn sy'n dod i ben ar 22 Gorffennaf 2025.

32. Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod 16.06.2025

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16.06.2025 yn gopi cywir. Cynigiwyd gan y Cyng. Bryan Davies ac eiliwyd gan y Cyng.Robin Bowen.

33.Materion i'w hadrodd

- Materion Priffyrdd: gweler o dan "Materion Priffyrdd".
- Cyfleusterau Cyhoeddus - gweler o dan adroddiadau is-bwyllgorau.
- Diffibriliwr Cwmdwad - Mae'r diffibriliwr cyhoeddus newydd a archebwyd wedi cyrraedd, yn barod ar gyfer argyfwng ac wedi'i osod yn y blwch presennol ar wal flaen allanol yr Afon Duad.

34.Gohebiaeth.

Nodir bod copïau o'r e perthnasol a dderbyniwyd yn cael eu hanfon at y cynghorwyr drwy e-byst.

- Cyngor Sir Caerfyrddin -Cynnig arfaethedig yn y terfyn cyflymder o 20-30 mya ar y B4333 drwy Hermon - Daw'r ymgynghoriad cychwynnol i ben ar 22/07/2025 - ac yna byddant yn dosbarthu llythyrau i eiddo yr effeithir arnynt yn uniongyrchol gan y newid arfaethedig yn y terfyn cyflymder, er mwyn gasglu eu hadborth cyn i'r cynigion gael eu hysbysebu'n ffurfiol fel rhan o broses gyfreithiol y Gorchymyn Rheoleiddio Traffig. Datganodd y Cyng. Elfed Davies fuddiant ac ni siaradodd ar y mater. Cadarnhaodd y Clerc ei bod wedi anfon yr holl lythyrau a dderbyniwyd yngylch y terfyn cyflymder ar y B4333 drwy Hermon SA33 6SR at y Rheolwr Diogelwch Ffyrdd, Y Peiriannydd Diogelwch Ffyrdd, Yr Adran Priffyrdd a Phrif Weithredwr Cyngor Sir Gâr ar 18.06.2025.
- CWLWM - clerc i ymateb gan egluro bod ceisiau am grantiau yn cael ei trin unwaith y flwyddyn a bydd manylion am y grant yn cael ei hanfon allan ar ddiwedd y flwyddyn hon ar gyfer danfon cais i mewn erbyn Ionawr/Chwefror.
- SCCH J.Jones-Cyfarfod Misol 17.7.25 am 15:00 Timau Microsoft - y ddolen gyswllt wedi'i ddarparu i'r Cynghorwyr sy'n dymuno mynychu.

35.Cynllunio

Amity Ymgynghori Cyn-Gais Stadudol - Tir Surgeon Street.

Ceisiadau Cynllunio o'r blaen: Cais am 13 Anedd wedi'i gymeradwyo Rhif: **W20633** dyddiad 03.07.2012
Tynnu amodau i fwrdd: **W35909** 01.08.2017

Cais Draenio wedi'i dynnu'n ôl; Rhif:**W/39587** 07.10.2019

LDP/Cynllun Datblygu Lleol 2021-2033 - Nifer rhagamcanedig yr anheddau ar y safle hwn = 13.
11 e-bost wedi'u derbyn oddi wrth trigolion lleol yn pryderu am y datblygiad arfaethedig.

Casglwyd a threfnwyd y prif bwyntiau o bryder, trafodwyd pob un a chanfuwyd eu bod yn bryderon dilys a phenderfynodd y Cyngor eu cynnwys yn ei ymateb i Amity. Rhoddwyd cyfle i bob Cynghorydd a oedd yn bresennol siarad ar y mater. Soniodd y Cyng. Sir Bryan Davies am Bolisi Gosod Lleol yr Awdurdod Lleol ac eglurodd y term Tai Fforddiadwy ac eglurodd fod y 22 o gartrefi fforddiadwy yn y cynllun wedi'u dyrannu fel rhai fforddiadwy i'w rhentu. Yn dilyn y drafodaeth, penderfynodd y Cyngor fod y caniatâd cynllunio gwreiddiol ar gyfer 13 o anheddau yn cael ei ystyried yn dderbyniol yn gyffredinol, ar yr amod bod yr uwchraddiadau seilwaith angenrheidiol yn cael eu gwneud cyn i unrhyw waith ddechrau i gefnogi'r gwaith adeiladu newydd ac i ymdopi â'r

galw cynyddol yn sgil y nifer disgwylledig o drigolion newydd. *h.y. gwella ffyrdd, system garthffosiaeth, cynyddu capasiti dŵr a charthffosiaeth, uwchraddio'r gwaith prosesu carthffosiaeth lleol.* Penderfynodd Cyngor Cymuned Cynwyl Elfed wrthwynebu'r cynnig am 31 o anheddau ar y safle ar ddiwedd Stryd y Meddyg, ac mae wedi penderfynu cyd-fynd yn llwyr â'r pryderon a godwyd ynghylch y datblygiad arfaethedig. Mae rhai o'r e-byst sy'n gwrthwynebu'r datblygiad ac yn nodi sylwadau a phryderon, yn cynnwys straen ar y seilwaith effaith ar y gymuned, graddfa annerbyniol ac effaith ar yr amgylchedd. Penderfynodd y Cyngor ymateb i Ymgynghorwyr Cynllunio Amity gyda'i benderfyniad.

Cynigiodd y Cyng. Aled Jones y Dylai'r Cyngor gynnal Cyfarfod Cyhoeddus a chafodd hyn ei eilio gan y Cyng. Robin Bowen. Penderfynodd y Cyngor archebu'r Neuadd ar gyfer Cyfarfod Cyhoeddus i'w gynnal ar 30.07.25. Disgwylir y bydd Amity wedi cyhoeddi'r ymatebion gan wahanol asiantaethau erbyn 30.07.25, gan gynnwys Dŵr Cymru i'w hymgyngoriad a ddaw i ben ar 18.07.25.

Mae'n annhebygol y bydd Ymgynghoriad yr Awdurdod Lleol a'r cais ffurfiol am gynllunio yn cael eu derbyn erbyn hyn, fodd bynnag, mae'r Cyngor yn ymwybodol mai dim ond ffenestr o dair wythnos fydd o dderbyn Llythyr Ymgynghoriad yr Awdurdod Lleol i weld y cynlluniau, trafod ac ymateb i'r Llythyr Ymgynghori cyn y dyddiad cau ac mae'n rhagweld y bydd angen trefnu cyfarfod pellach bryd hynny.

Penderfynodd y Cyngor y Dylai'r clerc ysgrifennu at Dŵr Cymru i gael gwybodaeth ynghylch y sefyllfa bresennol yng Nghynwyl Elfed a hefyd ystyried yr holl brosiectau cynllunio arfaethedig a ragwelir yn y pentref yn ystod y blynyddoedd nesaf a fydd yn effeithio ar y seilwaith presennol.

PL/09519 - Sied Amaethyddol -Penffynnon, Cynwyl Elfed SA33 6UP (ar y rhestr cynllunio wythnosol ond heb dderbyn llythyr ymgynghori ar hyn o bryd).

PL/09491 - Cynnig i gael gwared ar y gegin, y cyntedd a'r garej ynghlwm bresennol a'i disodli ag estyniad cegin/ystafell fwyta newydd ynghyd â chyfleustodau a thoiled newydd yn y cefn a phortsh mynediad newydd yn y blaen a'r holl waith cysylltiedig- Bryn Villa, Cynwyl Elfed SA33 6TE- penderfynodd y Cyngor gefnogi'r cais hwn.

36.Taliadau a Chyllid

(a)Taliadau a Chyllid

• ME Davies Cyflog Clerc 06/25 -	£ 310.10
• H.M.R.C. 1/4 (1) 2025/2026	£232.40
• Maria Thomas Magic Mops Taliad 26/05/25-22/06/25	£ 230.00
• E.D.F. Trydan - Debyd Uniongyrchol -01.06.25-30.06.25	£ 40.89
• Click Cleaning.co.uk-ME Davies- 48 x papur toiled	£ 55.79
• Bevan Buckland-Archwiliad Mewnol £320 + TAW	£384.00
• Un Llais Cymru - Hyfforddiant Cynefino Cynghorydd Newydd	£ 21.00
• Un Llais Cymru - Hyfforddiant Modiwl 4	£ 21.00
• PWLB DU	£315.00

Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo'r taliadau uchod.

- (b) Derbyniwyd £1,363.70 - ad-daliad T.A.W. am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31.03.2025.

ADOLYGIAD - CYSONI DERBYNIADAU A THALIADAU

Y Cyng. Amy Evans i adolygu'r cyfrifon hyd at 30 Mehefin 2025.

37.Materion Priffyrdd:

Materion Priffyrdd adroddwyd ar 14.07.2025

- a) Cyng. E.J. - clawr twll archwilio ar yr A484 wedi cwmpo yn SA33 6XJ ac hefyd bod yno broblem ynglŷn â'r system draenio.
- b) Cyng. J.E. - ers i'r ddau fin gael eu codi o ochr y ffordd ger y gyffordd â'r U5474, fod bagiau sbwriel a baw yn cael eu gadael ger y fainc. Mae hyn yn aflan ac mae angen o leiaf un bin yn y rhan hon o'r pentref. Mae'r clerc i fynd ar ôl y Cyngor Sir eto ynglŷn â'r mater hwn.

- c) Cynghorwyr E.D., D.P. ac A.J. wedi bod i ymchwilio i'r llwybr troed rhwng Cynwyl Elfed a Beili, rhif: 6/6/1. Byddant yn trefnu i'r coed sydd wedi cwmpo gael eu torri a'u symud oddi ar y llwybrau.

38. Adroddiadau gan Is-Bwyllgorau—

- **Cae Chwarae Bro Elfed:**

Dywedodd y Cyng. Amy Evans wrth y cyfarfod bod Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol Pwyllgor y Parc wedi'i ohirio a bydd yn hysbysebu'r dyddiad unwaith y bydd wedi'i ail-drefnu. Mae'r clerc i Rhani copi o'r cyfansoddiad newydd a ddrafftwyd gan y Cyng. A.E. gyda'r aelodau. Mae carnifal pentref i'w drefnu gan Bwyllgor y Parc yn ystod mis Awst. Mae'r clerc wedi cysylltu â'r Swyddfa Gofrestri Tir i gael gwybodaeth ynghylch perchnogaeth y tir am gost of £24 gan gynnwys T.A.W. ac yn aros am y wybodaeth y gofynnwyd amdani.

- **Cyfleusterau Cyhoeddus:**

- Cafwyd broblemau gyda'r system fflysio yn yr ystafell newid a chiwbicl y merched yn ystod yr wythnos diwethaf a bu y Cyng. Elfed Davies yn eu rhoi yn iawn.
- Adroddwyd am broblem arall heddiw gyda'r ystafell newid a bydd y Cynghorwyr R. Bowen a J.Evans yn ymchwilio.

39.Unrhyw Fater Arall.

- **Hyfforddiant -**

- Mynychodd y Cynghorwyr R. Bowen ac A Evans hyfforddiant Modiwl 4, Deall y Gyfraith ar 08.07.25 a'r Cyngorydd J. Evans ar 23.06.25 (2 lle am ddim) (1@ 50% £21) Aled Jones weminar Gynefuno i Gynghorwyr Newydd ar 12.06.25.
- Y Cyngorydd Aled Jones - I fynychu gweminar Hyfforddiant Côt Ymddygiad U.L.I.C. ar 03.09.25 (am ddim).

40. Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

Cyfarfod nesaf ar: Nos Lun, **15 Medi 2025** am: **7:30** yr hwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 22.00 awr.

.....
Cadeirydd.

.....
Dyddiad.